

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Pen-y-bont ar Ogwr****10 Rhagfyr 2018****Ystafell y Bwrdd, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr**

<b>Presennol</b>	<b>Sefydliad</b>
Christian Hadfield	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Cllr Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Darren Mepham, Chair	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Donna Baddeley	Cymoedd I'r Arfordir
Eirian Evans	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Gavin Bown	Cyfoeth Naturiol Cymru
Geoff Hobbs	Cyfoeth Naturiol Cymru
Heidi Bennett	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
John Hogg	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mark Brace	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Richard Baker	Llywodraeth Cymru
Richard Hughes	AWEN
Sandra Husbands	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Simon Pirotte	Coleg Penybont
<b>Hefyd yn bresennol</b>	
Judith Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Gaynor Griffiths	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Helen Hammond	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
<b>Ymddiheuriadau</b>	
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Claire Evans	Heddlu De Cymru
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Katy Chamberlain	Business in Focus
Martin Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Sian Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Stuart Parfitt	Heddlu De Cymru

<b>Eitem ar yr agenda</b>	<b>Sylwadau</b>	<b>Cam gweithredu</b>
<b>1</b>	<b>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b>	
1.1	Croesawodd DM bawb i'r cyfarfod, diolchodd i SP am groesawu a gofynnodd am gyflwyniadau Cofnodwyd ymddiheuriadau fel uchod.	
<b>2</b>	<b>Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2018 a materion oedd yn codi</b>	
2.1	Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir ac nid oedd materion yn codi.	
<b>3</b>	<b>Cyfoeth Naturiol Cymru: Datganiadau Ardaloedd</b>	
3.1	Cyflwynodd GH drosolwg gynhwysfawr ar y Datganiadau Ardaloedd. Rhoddodd wybodaeth gefndir am y datblygiad gan gynnwys y ddeddfwriaeth oedd yn ei lle yr oedd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru. <b>Cam gweithredu:</b> Cylchredeg y cyflwyniad.	<b>GG</b>

3.2	Ychwanegodd GH fod y Datganiadau Ardaloedd yn seiliedig ar wybodaeth gan bartneriaid ac y byddai ymgysylltu pellach yn digwydd i ddatblygu'r themâu oedd yn codi.	
3.3	Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch y manteision lluosog oedd ar gael o'r asedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yr angen i ychwanegu at fusnes fel arfer a phwysigrwydd cyd-drafod. Mae yna aliniad amlwg gydag is-fwrdd Asedau Pen-y-bont ar Ogwr a gorgyffwrdd ehangach gyda holl is-fyrddau'r BGC.	
<b>4</b>	<b>Potensial ar gyfer BGC Rhanbarthol</b>	
4.1	Ailadroddodd DM y bydd y newidiadau yn nherfynau Byrddau Iechyd yn digwydd ym mis Ebrill ac y bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o ardal Cwm Taf. Mae'r posibilrwydd i BGC Pen-y-bont ar Ogwr ymuno â BGC Cwm Taf yn rhywbeth i'w ystyried.	
4.2	Diolchodd DM i'r aelodau hynny a aeth i BGC Cwm Taf am eu sylwadau ysgrifenedig, a gylchredwyd o'r blaen, a gwahoddodd bawb i fyfyrto ar y cyfeiriad yr oeddem yn symud ynddo.	
4.3	Cafwyd trafodaeth i ddilyn: ynghylch yr hyn oedd o blaid ac yn erbyn datblygu BGC newydd ar y cyd. Codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli momentwm a chanolbwyntio ar Gynllun Llesiant presennol Pen-y-bont ar Ogwr a'r gwahaniaethau yn aelodaeth y ddau fwrdd.	
4.4	Marcus Longley, Bwrdd Iechyd CWMTAF, yw Cadeirydd BGC Cwm Taf a bydd yn cynrychioli'r Bwrdd Iechyd ar BGC Pen-y-bont ar Ogwr. Efallai y bydd y berthynas hon yn symud y sgwrs ymlaen ac yn ateb rhai o'r pryderon. Cytunai pawb fod angen deialog bellach ynghyd â mwy o amser i weld sut y byddai'r newid yn y Terfynau Iechyd yn effeithio ar waith y BGC.	
<b>5</b>	<b>Ethol Cadeirydd Newydd</b>	
5.1	Esboniodd DM ei fod ef yn symud ymlaen i swydd newydd ac yn gadael y Cyngor a'i fod wedi gwahodd aelodau i fynegi diddordeb mewn cadeirio'r BGC.	
5.2	Cadarnhaodd DM mai un enwebiad oedd wedi dod i law a gofynnodd a fyddai unrhyw un arall yn hoffi rhoi ei enw ymlaen. Cytunodd pawb i benodi MB yn Gadeirydd.	
<b>6</b>	<b>Strategaeth Hunanladdiad a Hunan-niweidio</b>	
6.1	Cyfeiriodd JJ at y papurau a gylchredwyd yn gynharach a thynnodd sylw at ddau faes gwaith lle roedd swyddogion arweiniol wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ac yn awr angen eu cadarnhau. <b>Cam gweithredu:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael cadarnhad bod Joanne Abbot-Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yn swyddog arweiniol ar gyfer Blaenoriaeth 5.</li> <li>• Cysylltu â Sue Cooper i gael eglurder mai Glynis Evans, Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor), yw'r swyddog arweiniol ar gyfer blaenoriaeth 4.</li> </ul>	SH DM
<b>7</b>	<b>Bwrdd Asedau Pen-y-bont ar Ogwr</b>	
7.1	Rhoddodd GB adborth ar gynnydd Is-fwrdd Asedau Pen-y-bont ar Ogwr; cylchredwyd yr adroddiad gyda'r papurau.	
7.2	Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Digwyddiad mapio asedau</li> <li>• Cyfleoedd plannu coed</li> <li>• Ymchwil rhagnodi cymdeithasol</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfleoedd yn y dyfodol</li> </ul>	
7.3	Ychwanegodd GB y byddai is-fwrdd mis Ionawr yn ystyried yr adborth o'r digwyddiad ac yn nodi unrhyw themâu fyddai'n dod i'r amlwg, yn symud y cyfleoedd i blannu coed ymlaen er mwyn cynyddu'r coed ar dir aelodau o'r BGC ac edych i weld pa rwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gofod gwyrdd i gefnogi rhagnodi cymdeithasol.	
7.4	Soniodd Richard Baker am weithgor yr Asedau Cenedlaethol, nododd y posibilrwydd o gysylltu ag Asedau Cymru am gymorth ac awgrymodd gyfarfod gyda GB. <b>Cam gweithredu:</b> cyfarfod i'w drefnu.	JJ
<b>8</b>	<b>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr</b>	
8.1	Amlinellodd JJ yr adroddiad, oedd wedi ei gylchredeg yn gynharach, a thynnodd sylw at y blaenoriaethau a nodwyd a'r cynnydd hyd yn hyn. Gan mai'r Cynghorydd Richard Young yw cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, awgrymodd JJ ei fod yn dod yn aelod o'r BGC a chytunodd pawb. <b>Cam gweithredu:</b> gwahodd y Cynghorydd Young i'r BGC.	JJ
8.2	Rhoddodd JJ drosolwg ar y gwaith cydweithredol diweddar: <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngorsaf Bysiau Pen-y-bont ar Ogwr/Canol y Dref - ymgysylltwyd â'r bobl ifanc oedd yn achosi'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngorsaf Bysiau Pen-y-bont ar Ogwr.</li> <li>Gwasanaeth Dyfodol yn Stryd y Farchnad – cefnogwyd cynnal ymgynghoriad ynghylch symud lleoliad y gwasanaeth.</li> <li>Pobl yn cysgu allan - mae'r gwasanaeth dydd galw heibio, wedi ei gyllido, a ddarperir yn y Parth, wedi cynyddu ac yn cael ei ariannu gan Cefnogi Pobl.</li> <li>Mae'r bobl sy'n cysgu allan dan Bont y Rhiw ar hyn o bryd yn cael eu lletya a gosodwyd clo ar yr agorfa. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac adran briffyrdd y Cyngor yn edrych am ateb parhaol.</li> <li>Cwynion gan fasnachwyr ac eraill ynghylch diffyg ymateb gan Heddlu De Cymru a'r Cyngor - Ymgyrch Adroddwch Amdano.</li> <li>Digwyddiad Ffydd - 60+ yn bresennol, cyfle i gasglu gwybodaeth am yr hyn y mae grwpiau Ffydd yn ei gynnig a rhoi manylion iddynt ynghylch yr asiantaethau a'r gwasanaethau sydd ar gael ledled Pen-y-bont ar Ogwr.</li> </ul>	
8.3	Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch darpariaeth ar gyfer y digartref a'r angen i gynorthwyo'r grwpiau Ffydd sydd eisiau helpu, codi ymwybyddiaeth ynghylch y peryglon ac am eu hamddiffyn eu hunain heb fygu eu brwdfrydedd.	
8.4	Holai'r Cynghorydd HD a allai aelodau o'i etholaeth ef helpu allan gyda darpariaeth debyg i gegin gawl. Nododd HB y dylai pobl oedd â diddordeb mewn gwirfoddoli gysylltu â BAVO lle y gallant gydweddu gwirfoddolwyr gyda darparwyr.	
<b>9</b>	<b>Partneriaeth Ddysgu Pen-y-bont ar Ogwr</b>	
9.1	Rhoddodd SP ddiweddariad ar gynnydd yr is-fwrdd a thynnodd sylw at y 4 dull a fwriadwyd i gynyddu cyfranogaeth mewn prentisiaethau. <b>Cam gweithredu:</b> cylchredeg y cyflwyniad.	GG
9.2	Nododd SP fod prentisiaethau wedi eu sicrhau gydag ABMU ar gyfer 9 o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol mewn partneriaeth ag Elite Support sydd wedi ei leoli yn ysbyty Tywysoges Cymru.	
9.3	Ychwanegodd SP fod Coleg Caerloyw, gan weithio gyda Premier Inn, wedi efelychu ystafelloedd gwesty yn y coleg a bod myfyrwyr awtistig	

	wedi bod yn ymgeiswyr delfrydol.	
9.4	Nododd DM y gobeithid y byddai aelodau'r BGC yn dod ynghyd i gynnig prentisiaeth i garfan o bobl ifanc; bydd angen sgysiau pellach. <b>Cam gweithredu:</b> cysylltwch â SP os oes gennych ddiddordeb.	<b>Pawb</b>
<b>10</b>	<b>Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Llesiant</b>	
10.1	Amlinellodd JJ gynnig ar gyfer datblygu'r Adroddiad Blynyddol; gofynnodd i 2 arweinydd weithio gyda'r tîm cefnogi i ddarparu adroddiad drafft ac awgrymodd newid cyfarfod y Cadeiryddion ym mis Mawrth yn weithdy fyddai'n canolbwyntio ar yr adroddiad.	
10.2	Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch y gynulleidfa y byddai'r adroddiad yn ei thargedu, yr angen i roi mewn geiriau weledigaeth tymor hir y cynllun gan ddangos y 5 ffordd o weithio a'r her o fodloni'r rheiny fyddai'n disgwyl Adroddiad Blynyddol traddodiadol.	
10.3	Cytunai pawb â'r cynnig a gwirfoddolodd JH a RH i arwain. <b>Cam gweithredu:</b> trefnu cyfarfod i ddatblygu'r Adroddiad Blynyddol.	<b>Y tîm cefnogi</b>
<b>11</b>	<b>Unrhyw Fater Arall</b>	
11.1	Diolchodd MB i DM am ei gyfraniad a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd.	
<b>12</b>	<b>Papurau er gwybodaeth yn unig</b>	
12.1	Llythyr gan Rebecca Evans AC Llythyr gan FGC ynghylch Celfyddyd y Posibl: 80 o newidiadau syml Celfyddyd y Posibl: 80 o newidiadau syml Lleoedd a gofod iachach, cefnogaeth lechyd Cyhoeddus Cymru i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.	
<b>13</b>	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b>	
13.1	Ailadroddodd DM y byddai cyfarfod y Cadeiryddion ym mis Mawrth yn newid yn weithdy i ganolbwyntio ar yr Adroddiad Blynyddol a bod cyfarfod llawn nesaf y BGC wedi ei drefnu ar gyfer 17 Mehefin 2019.	